**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar ddydd Mercher 1af Awst 2007 am 09.30 a.m.

**YN BRESENNOL**

Cynghorwyr R E Barton, B Blakeley, J Chamberlain-Jones, J M Davies, M Ll Davies, E C Edwards, G C Evans, H H Evans, S Frobisher, I M German, M A German, D. Hannam, T K Hodgson, N Hugh-Jones, E R Jones, M M Jones, G M Kensler, P J Marfleet (sylwedydd) N P Roberts, J A Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams ac R Ll Williams

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Arweinydd Tîm (Mân Geisiadau), Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (G. Butler) Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams), Swyddog Cynllunio a Chydymffurfio (E. O Connor), Uwch Swyddog Cynllunio (Shan Jones) a Bryn Jones (Cyfieithydd)

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Cynghorwyr J. Butterfield, S.A. Davies, P W Owen, T.R. Hughes

**290 MATERION BRYS**

Atgoffodd Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol yr Aelodau o lythyr Clerc y Sir a anfonwyd at bawb yn ddiweddar ynghylch protocol ac arfer gorau wrth bleidleisio. Roedd y llythyr yn cynghori'r Aelodau y dylent fod yn bresennol ar gyfer y drafodaeth gyfan er mwyn dod i farn gytbwys wrth bleidleisio.

**291 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) bod argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, i'w cadarnhau a bod caniatâd neu wrthodiad cynllunio yn ôl fel y digwydd, i'w roi fel y bo'n briodol o dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 i'r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) **CANIATÂD**

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 43/2007/0441/PF | **Siaradwr Cyhoeddus yn Erbyn: Geoff Rayner**<br>Ar ôl ystyried hanes cynllunio perthnasol a llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth: Cyngor Tref Prestatyn.<br>Codi annedd ar ei phen ei hun ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau. **Rhan o ardd 2 The Avenue Bryn Newydd yn wynebu Ffordd Gronant Prestatyn**<br>**CANIATÁU**<br>**Yn amodol ar**<br>**Amod diwygiedig Rhif 8** |

8. Mae'r wal/gwrych y naill ochr a'r llall i'r fynedfa ac ar draws tu blaen Ffordd Gronant i'w ostwng a'i gadw ar uchder o 0.6m ac nid oes dim i'w blannu na'i godi uwchben yr uchder hwn o fewn darn 2fetr yn ôl o'r fan honno.

**Nodyn Ychwanegol i'r Ymgeisydd**

Os gwelwch yn dda ceisiwch gadw a diogelu'r goeden ar y briffordd y tu allan i'r fynedfa arfaethedig i'r safle. Byddai angen cymeradwyaeth Priffyrdd petaech yn bwriadu cael gwared â'r goeden.

45/2007/0302/PS

**Siaradwr Cyhoeddus yn Erbyn: David Jackson**
**Siaradwr Cyhoeddus o Blaid: Tony Thomas**

Amrywio Amod Rhif 2 ar Ganiatâd Cynllunio Cyfeirnod 45/2006/0868/PF i ganiatáu cynnydd yn nifer y plant o 25 i 32

**37 Marine Drive Y Rhyl**

**CANIATÁU**

**Nodyn Ychwanegol i'r Ymgeisydd**

Gofynnir ichi roi ystyriaeth i rybuddio eich cwsmeriaid/cleientiaid i gadw at y cyfyngiadau parcio ar y ffordd fawr ac annog yr arfer diogel o ollwng a chasglu plant.

02/2007/0638/PF

Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth: Archeolegydd y Sir; Gwarchod y Cyhoedd; conffederasiwn Busnesau Bychain.

Adeiladu adeilad diwydiannol newydd ar gyfer creu peledi pren gyda sied storio atodol ar gyfer defnyddiau crai; gosod tanc carthion newydd ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau.

**Clifford Jones Timber Ltd. Lôn Brickfield Ffordd Dinbych Rhuthun**

**CANIATÁU**

Yn Amodol ar Amodau Diwygiedig

**Amodau ychwanegol**

1. Nid oes dim llwch i adael terfyn y broses. Ble, ym marn Cyngor Sir Ddinbych, y mae tystiolaeth o lwch/sylwedd gronynnol yn yr awyr oddi wrth y gweithgaredd oddi ar y safle, yna:

- Ble mae modd canfod y ffynhonnell, dylid cymryd camau cywirol ar unwaith
- Ble mae ffynhonnell y gollyngiad yn ansicr, mae'r Gweithredwr i fynd ati i fonitro'r llwch amgylchol i ganfod y ffynhonnell. Mae'r dull monitro sydd i'w ddefnyddio i'w gytuno ymlaen llaw gyda Chyngor Sir Ddinbych.

***Rheswm:*** *Er mwyn diogelu amwynderau'r gymdogaeth*

2. Uchafswm lefel sŵn, a fesurir yn unrhyw le ar linell derfyn y safle, fel a ganlyn:

| Diwrnod | Cyfnod | Lefel (maes rhydd) |
|---|---|---|
| Llun i Gwener | 07.00awr i 18.00awr | 60dB LAeq, 1awr |
| | 18.00awr i 21.00awr | 50dB LAeq, 1awr |
| | 21.00awr i 07.00awr | 40dB LAeq, 5mun |
| | Y tu allan i'r cyfnod 08.00awr i 13.00awr | 40dB LAeq, 5mun |
| | 08.00awr i 13.00awr | 60dB LAeq, 1awr |
| | Trwy'r dydd | 40dB LAeq, 5mun |

Oni bai y cytunir fel arall yn ysgrifenedig gyda'r ACLI.

***Rheswm:*** *Er mwyn diogelu amwynderau'r gymdogaeth*

3. Mae’r oriau gwaith adeiladu ar gyfer y datblygiad newydd i’w cyfyngu i 07.30 – 19.00awr dydd Llun i ddydd Gwener a 08.00 – 13.00awr ar ddydd Sadwrn ac ni fydd dim gweithio’n cael ei ganiatáu ar y Sul neu Wyliau Banc.
***Rheswm:*** *Er mwyn diogelu amwynderau’r gymdogaeth ac er lles diogelwch y briffordd.*
4. Nid oes dim tanau i’w llosgi ar y safle.
***Rheswm:*** *Er mwyn diogelu amwynderau’r gymdogaeth*
Yr amodau uchod i gynnwys materion Gwarchod y Cyhoedd.
5. Mae’r adeiladau a gymeradwyir drwy hyn i’w defnyddio ar y cyd â’r busnes cynhyrchu a storio coed presennol ar y safle.
***Rheswm:*** *Er mwyn diogelu amwynderau’r gymdogaeth ac er lles diogelwch y briffordd.*

**Amod Diwygiedig**

21. Nid yw’r defnydd a ganiateir drwy hyn i gychwyn hyd nes bydd y fynedfa i gerbydau a’r holl leoedd a gymeradwywyd ar gyfer parcio, llwytho dadlwytho a throi cerbydau wedi’u hadeiladu’n unol â’r cynllun a gymeradwywyd ac maent i’w cadw wedi hynny.

05/2007/0674/PF

Ar ôl ystyried llythyrau ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth: Pennaeth Cludiant ac Isadeiledd; Dŵr Cymru
Codi annedd ar ei phen ei hun a newidiadau i’r fynedfa bresennol i gerbydau (tua 0.1hectar o dir)

**Tir yn (Rhan o ardd) Pentir Carrog Corwen**
**CANIATÁU**
**Yn Amodol ar Amodau Newydd**

Yr Amod(au) yw:
1. Mae’r datblygiad a ganiateir drwy hyn i’w ddechrau cyn diwedd pum mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.
2. Nid oes dim o ddefnyddiau’r wal neu’r to allanol i’w gosod hyd nes y byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i’r defnyddiau arfaethedig sydd i’w defnyddio ar gyfer arwynebau allanol [waliau [a tho(eau)] y datblygiad a ganiateir drwy hyn ac nid oes dim defnyddiau heblaw’r rheini a gymeradwywyd i’w defnyddio.
3. Nid oes dim datblygu i ddigwydd hyd nes y bydd cynllun manwl o’r tirlunio caled a meddal ar gyfer y safle wedi’i gyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol, a’i gymeradwyo’n ysgrifenedig ganddo, ac mae’r cyfryw gynllun i gynnwys manylion:
(a) yr holl goed, gwrychoedd a llystyfiant presennol ar y tir, manylion unrhyw rai sydd i’w cadw, a mesurau ar gyfer eu diogelu tra bydd y datblygu’n mynd ymlaen.
(b) coed, gwrychoedd, llwyni neu lystyfiant newydd arfaethedig, yn cynnwys cadarnhad o’r rhywogaethau, niferoedd, a lleoliad ac amseriad arfaethedig y plannu;
(c) defnyddiau arfaethedig sydd i’w defnyddio ar y dramwyfa(tramwyfeydd), llwybrau a mannau eraill sydd â wyneb caled;
(d) cloddio, graddio a phentyrru arfaethedig ar dir a newidiadau yn y lefelau, amlinellau terfynol a pherthynas y pentyrru arfaethedig â’r llystyfiant presennol a’r tirffurf o gwmpas;
(e) Lleoliadau, dyluniad, defnyddiau a math arfaethedig y driniaeth terfyn
4. Mae’r holl blannu, hadu, tywarchu, ffensio, codi waliau neu driniaeth arall a gynhwyswyd yn y manylion tirlunio a gymeradwywyd i’w wneud yn y tymhorau plannu a hadu

cyntaf [wedi i rywun ddod i fyw yn yr annedd/cwblhau'r datblygiad/cychwyn y datblygiad/tymor plannu a hadu nesaf] ac mae unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd i'r datblygiad, yn marw, yn cael eu gwaredu neu'u difrodi neu'u niweidio'n ddifrifol i'w cyfnewid yn y tymor plannu nesaf am rai eraill o fath a rhywogaeth debyg.
5. Cyn i unrhyw ddatblygu gychwyn ar y safle, mae manylion llawn y pen troi, y gwelliannau gweledэdd a'r fynedfa arfaethedig i'r safle yn cynnwys y gweddlun, dyluniad, draeniad ac adeiladwaith manwl, i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo ganddo, ac mae'r pen troi, y gwelliannau gweledэdd a'r fynedfa i'w hadeiladu a'u gwneud yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.
6. Mae cyfleusterau i'w darparu a'u cadw o fewn safle'r cais ar gyfer parcio a throi cerbydau yn unol â chynllun sydd i'w gytuno gyda/gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ac sydd i'w cwblhau cyn i neb fyw yn yr annedd arfaethedig.
7. Nid oes dim gwaith adeiladu ar safle'r cais ei hun i gychwyn hyd nes bydd cynllun mynediad ar gyfer cerbydau adeiladu wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.

**Nodiadau Arbennig i'r Ymgeisydd**

Tynnir eich sylw at y Nodiadau Priffyrdd Atodol Rhif 1, 3, 4, 5 & 10.

Tynnir eich sylw at y ffurflen Rhan N amgaeedig (Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991).

Os bydd angen cysylltiad â'r system garthffosiaeth gyhoeddus, cynghorir y datblygwr i gysylltu ag Ymgynghorwyr Datblygu Rhwydwaith Dŵr Cymru ar Ffôn: 01443 331155.

24/2006/0442/PF

Addasu tai allan i ffurfio 6 o anheddau gyda chwrtilau cysylltiedig, gosod gwaith trin preifat a dymchwel adeiladau amaethyddol iwtilitaraidd a thŵr slyri.

**Tai allan yn Plas y Ward Rhewl Rhuthun**

**CANIATÁU**

**Amodau Ychwanegol**

9. Nid oes dim datblygu i gychwyn hyd nes y bydd manylion lleoedd pasio i gerbydau wedi'u cytuno'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae'r manylion a gymeradwywyd i'w gweithredu'n llawn cyn i neb fyw yn unrhyw un o'r anheddau a gymeradwyir drwy hyn.

(ii) **GWRTHOD**

31/2007/0627/PO

Ar ôl ystyried adroddiad ymweliad safle a gynhaliwyd ar 30/07/07.

Datblygu 0.06hectar o dir at ddibenion preswyl (cais amlinellol)

**Bwthyn Ciper Wigfair Llanelwy**

**GWRTHOD**

07/2006/1347/PO

**Siaradwr o Blaid: Mr Gwyn Roberts**

Datblygu 0.09 hectar o dir ar gyfer codi annedd gweithiwr amaethyddol (Cais amlinellol)

**Tir yn Rhyd Gethin Llandrillo Corwen**

**GWRTHOD**

Nodyn i'r Ymgeisydd

Fe'ch cynghorir i gysylltu â'r swyddog achos petaech yn dymuno trafod y cais ymhellach.

| | |
|---|---|
| 20/2007/0507/PO | **Siaradwr o Blaid – Mr Elwyn Hughes**<br>Datblygu 0.047 hectar o dir drwy godi un annedd fforddiadwy (cais amlinellol)<br>**GWRTHOD**<br>**Nodyn i'r Ymgeisydd**<br>Fe'ch cynghorir i gysylltu â'r swyddog achos i drafod mater tai fforddiadwy a'r posibiliadau o gyflwyno cynllun a all gydymffurfio â'r polisïau mabwysiedig a'r cyfarwyddyd presennol. |

**GWRTHODWYD YN GROES I ARGYMHELLIAD SWYDDOGION**

| | |
|---|---|
| 24/2007/0694/PS | **Siaradwr Cyhoeddus o Blaid – Arolygydd yr Heddlu Mark Radcliffe**<br>Ar ôl ystyried llythyrau ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth: Cyngor Tref Rhuthun; Cyngor Cymuned Llanynys; Pennaeth Cludiant ac Isadeiledd.<br>Disgrifiad: Amrywio Amod Rhif 3 caniatâd cynllunio rhif côd 24/518/99/PS ac amod rhif 5 ar Ganiatâd Cynllunio Cyfeirnod 24/0834/98/PF i ganiatáu defnyddio safle ac adeiladau'r Ganolfan Hyfforddiant Gynnau mewn ufudd-dod i'r cyfyngiadau canlynol:- i) Mae unrhyw sefydliad sy'n defnyddio'r safle a'r adeiladau i'w awdurdodi a'i oruchwylio gan Heddlu Gogledd Cymru ii) Mae oriau'r defnydd i'w cyfyngu i rhwng 0830awr a 1730awr ar unrhyw ddiwrnod gyda'r ddarpariaeth ar gyfer uchafswm o 12 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 12 mis ble mae'r oriau sydd i'w caniatáu rhwng 0830awr a 2000awr (o fewn pa rai ni fyddir yn caniatáu i'r gweithgaredd saethu fod yn fwy nag uchafswm o 5 awr) iii) Nid yw'r safle a'r adeiladau i'w defnyddio ar Ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan neu Ddydd Calan iv) Nid oes dim tanio arfau cyflymder uchel neu isel neu weithgareddau sy'n golygu ffrwydriadau i fod o fewn y safle ar y Sadwrn, Sul neu Wyliau cyhoeddus ac nid oes dim offer mwyhau sŵn i'w ddefnyddio y tu allan i adeiladau o fewn y safle ar y diwrnodau hyn<br>**Cyfadeilad Hyfforddiant Gynnau Chwarel Craig y Ddywart Rhewl Rhuthun**<br>**GWRTHOD**<br>Penderfynwyd **GWRTHOD** yn groes i argymhelliad swyddogion.<br>Rheswm:<br>1. Byddai'r amrywiadau arfaethedig i'r amod i ganiatáu mwy o ddefnydd ar y safle ar benwythnosau a rhai Gwyliau Banc i sefydliadau sy'n ychwanegol i Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaethau Brys eraill yn arwain at ddwysâd defnydd annerbyniol ar y safle y tu hwnt i'r caniatâd gwreiddiol a roddwyd, gan gael effaith andwyol ar amwynder cyffredinol yr ardal yn groes i feini prawf i) a v) Polisi GEN 6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych. |

Terfynwyd y cyfarfod am 1.00 pm ar gyfer egwyl cinio, i'w ailgynnull am 1.30 pm

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio Ailgynulledig a gynhaliwyd yn Siambrau'r Cyngor, Rhuthun ar ddydd Mercher 1af Awst 2007 am 1.30 pm.

**YN BRESENNOL**

Cynghorwyr R E Barton, B Blakeley, J Chamberlain-Jones, J M Davies, M Ll Davies, E C Edwards, G C Evans, I M German, M A German, D. Hannam, N Hugh-Jones, E R Jones, M M Jones, G M Kensler, N P Roberts, J A Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, M Webster, C H Williams, E.W. Williams (sylwedydd) ac R Ll Williams

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Arweinydd Tîm (Mân Geisiadau), Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (G. Butler) Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams), Swyddog Cynllunio a Chydymffurfio (E. O Connor), Uwch Swyddog Cynllunio (Shan Jones) a Bryn Jones (Cyfieithydd)

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Cynghorwyr J. Butterfield, S.A. Davies, S. Frobisher, P. Owen, T.R. Hughes, T.K. Hodgson, H. Jones a H.H. Evans.

**292 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd ag angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(b) bod argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, i'w cadarnhau a bod caniatâd neu wrthodiad cynllunio yn ôl fel y digwydd, i'w roi fel y bo'n briodol o dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 i'r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(ii) **CANIATÂD**

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 41/2007/0489/PF | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth: yr ymgeisydd.<br>Cadw cysgodfan cae a llawr caled ar gyfer lle parcio a chodi tŷ gwair a defnyddio tir ar gyfer manege (Yn rhannol ôl-weithredol)<br>**Tyn y Ffordd Isa Bodfari Dinbych**<br>**CANIATÁU**<br>**Amod Diwygiedig**<br>2. Mae defnydd y manege a'r stabl a gymeradwyir drwy hyn i fod ar gael ar gyfer perchennog/deiliad Ty'n y Ffordd Isa yn unig ac nid ydynt ar unrhyw adeg i'w defnyddio ar gyfer unrhyw ddefnydd masnachol gyda cheffylau heb roi caniatâd cynllunio pellach.<br>*Rheswm: Er mwyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol allu cadw rheolaeth.* |
| 43/2007/0687/PF | Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth: Cyngor Tref Prestatyn; Dŵr Cymru<br>Codi annedd deulawr<br>**Tir yn (Rhan o Ardd) 166 Victoria Road Prestatyn**<br>**CANIATÁU** |

**Yn Amodol ar Amod Diwygiedig**
Er gwaethaf darpariaethau Dosbarth(iadau) [ABCE] o Ran o Atodlen 2 y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (neu unrhyw orchymyn yn diddymu ac yn ail-basio'r gorchymyn hwnnw wedi neu heb ei addasu) nid oes dim datblygu a ganiateir gan y dywededig Ddosbarthiadau i'w wneud heb i'r Awdurdod Cynllunio Lleol roi caniatâd cynllunio pellach.
Dymunai'r Cynghorwyr I. German ac M. German iddo gael ei nodi eu bod wedi pleidleisio yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio.

45/2007/0644/PF

Ar ôl ystyried cywiriad i'r adroddiad.
Codi estyniadau i ddarparu llefydd preswyl ychwanegol at y cartref nyrsio preswyl presennol
**Bryn Estyn 85 Russell Road Y Rhyl**
**CANIATÁU**

45/2007/0755/PF

Cyhoeddodd y Cynghorydd B. Blakeley ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried.
Codi ystafell wydr yng nghefn yr annedd.
**12 Cambrian Walk Y Rhyl**
**CANIATÁU**

01/2007/0517/PF

Newid defnydd i ffurfio caffi Dosbarth A3 ar y llawr isaf a maisonette hunangynhwysol ar y lloriau uchaf.
**Chirbury House Rhes Gefn Dinbych**
**CANIATÁU**
**Yn Amodol ar Amod Diwygiedig**
2. Nid yw'r caffi a ganiateir drwy hyn i fod ar agor i gwsmeriaid y tu allan i'r amseroedd canlynol: 0800awr i 1800awr ar unrhyw ddiwrnod.
*Rheswm: Er lles amwynder preswyl.*
**Amod Ychwanegol**
4. Mae'r drws a'r rheiliau newydd y dangosir eu bod i'w gosod ar lefel y llawr cyntaf ar weddlun de-orllewinol yr adeilad i'w gosod fel y dangosir ar luniad rhif 27801 P1 a'u gorffen mewn lliw sydd i fod fel y cytunir ymhellach yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn defnyddio'r maisonette.
*Rheswm: Er lles amwynder gweledol.*

05/2007/0299/PF

Codi estyniad unllawr ac ystafell wydr yng nghefn yr annedd a newid defnydd rhan o'r annedd yn uned wyliau hunangynhwysol.
**Ty Isa'r Plwyf Glyndyfrdwy Corwen**
**CANIATÁU**

16/2006/1325/AD

Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth: Pennaeth Cludiant ac Isadeiledd; CBY AHNE
Arddangos 3 o flaenarwyddion ar yr A494 at siop fferm.
**Tir ar Fferm Rhesgoed Llanbedr Dyffryn Clwyd Rhuthun**
**CANIATÁU**

16/2007/0420/PO

Datblygu 0.05 hectar o dir at ddibenion preswyl a newidiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau.
**Tir yn (rhan o ardd) Hen Ysgubor Plas Isaf Llanbedr Dyffryn Clwyd Rhuthun**
**CANIATÁU**
**Amod Diwygiedig**

| | |
|---|---|
| | 6. Cyn y cychwynnir unrhyw waith ar yr annedd y rhoddir caniatâd amlinellol iddi drwy hyn mae'r fynedfa i'r safle i'w gosod allan, ei hadeiladu a'i chynnal yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd 0172/1 Diwygiad A. Mae'r lleiniau gwelededd i'w cadw wedi hynny yn unol â'r cynllun heb unrhyw rwystr sy'n fwy na 900mm uwchben lefel y ffordd gerbydau gyfagos. |
| 17/2007/0384/PF | Ar ôl ystyried manylion ychwanegol a gylchredwyd a llythyrau ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth: Paul Mitchell a Rachel Turner; Cyngor Cymuned Llandegla.<br>Codi 2 o anheddau deulawr ar eu pen eu hunain, newidiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau/ gerddwyr a ffurfio ffordd fynediad.<br>**Tir rhwng Capel Pisgah a Tan y Bryn Old Gate Lane Llandegla Wrecsam**<br>**CANIATÁU**<br>**Amod Diwygiedig 3**<br>"Lluniad Rhif 6295-L(9)01 Diw E y fynedfa" |

**GOHIRIO**

| | |
|---|---|
| 40/2007/0790/PF | Codi estyniadau croes i annedd.<br>**Fferm Pengwern Ffordd Nant y Faenol Bodelwyddan Y Rhyl**<br>**GOHIRIO** i eglurhau'r cynlluniau a gyflwynwyd. |

**293 HEN YSBYTY GOGLEDD CYMRU DINBYCH**

Cyflwynwyd, adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn diweddaru'r Aelodau ar y cynnydd ar y safle.

***PENDERFYNWYD:*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

**294 APELIADAU CYNLLUNIO'N YMWNEUD Â DATBLYGIAD TYRBINAU GWYNT ARFAETHEDIG YN WERN DDU GWYDDELWERN**

Cyflwynwyd, adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn hysbysu'r Aelodau o ganlyniad yr apeliadau uchod a ganiatawyd yn ddiweddar mewn Ymchwiliad Cynllunio.

***PENDERFYNWYD:*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

**295 PROTOCOL PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cyflwynwyd, adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn diwygio Protocol Pwyllgor Cynllunio i gymryd defnydd offer pleidleisio electronig i ystyriaeth.

***PENDERFYNWYD:*** *cymeradwyo'r diwygiadau i Brotocol Pwyllgor Cynllunio.*

**296 DIWEDDARIAD PENDERFYNIAD APÊL**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn hysbysu'r Aelodau o Apeliadau Cynllunio sydd heb eu penderfynu a phenderfyniadau a dderbyniwyd rhwng 1$^{af}$ Ebrill a 30$^{ain}$ Mehefin 2007.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

**297 MATERION GORFODI**

**297(i) ENF/2007/00058 – Star Inn, 73 Ffordd Talargoch Prestatyn**

Codi estyniad blaen heb awdurdod

***PENDERFYNWYD:***

*Bod awdurdodiad i'w roi ar gyfer y canlynol:*

*(i) Cyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau y ceir gwared â'r canopi diawdurdod a'r gosodiadau cysylltiedig ac y taclusir adeiladwaith yr adeilad.*

*(ii) Cychwyn achos erlyn, neu'r camau priodol o dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y sawl, neu'r rhai y cyflwynir unrhyw Rybudd Gorfodi, neu Rybudd arall o'r fath iddo/iddynt, neu y cymerir camau cyfreithiol yn ei erbyn/eu herbyn petai/petaent yn peidio â chydymffurfio â gofynion y Rhybudd Gorfodi.*

*(iii) Cyfnod i gydymffurfio 3 mis.*

**297(ii) ENF/2007/00011**

Ysgoldy Prion Dinbych

Estyn Garej a Storfa Gardd heb awdurdod

***PENDERFYNWYD:***

*(i) Cyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau y ceir gwared â'r garej a'r storfa ddiawdurdod.*

*(ii) Cychwyn achos erlyn, neu'r camau priodol o dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y sawl, neu'r rhai y cyflwynir unrhyw Rybudd Gorfodi, neu Rybudd arall o'r fath iddo/iddynt, neu y cymerir camau cyfreithiol yn ei erbyn/eu herbyn petai/petaent yn peidio â chydymffurfio â gofynion y Rhybudd Gorfodi.*

*(iii) Cyfnod i gydymffurfio; 6 mis.*

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30pm

*******